

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	3 MAWRTH 2022
Pwnc:	ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CHWARTER TRI 2021/22 - CYFALAF
Aelod(au) Portffolio:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADAIN 151 (EST. 2601)
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	JEMMA ROBINSON 01248 752675 JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2021/22 yn chwarter 3.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb Gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro cyllidebau yn swyddogaeth a ddynodwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?

1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Mae'r UDA wedi adolygu'r adroddiad ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad terfynol.
2	Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n rhan o'r UDA ac mae'r UDA wedi ystyried y sylwadau.
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	

E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol)		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd y mae eu hangen i ganiatáu i'r Cyngor gwrdd â'i amcanion tymor hir a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gyfalaf.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-	Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau'r Gronfa Gofal Ganolradd yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:	Mae cyllido'r prosiectau wedi cael ei gytuno a'i gynllunio â sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru'n neilltuol.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Bu Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yn destun ymgynghoriad â dinasyddion Ynys Môn.
5	Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg.	Mae elfennau o'r prosiectau a gyllidir gan y rhaglen gyfalaf yn cael effaith ar yr agenda cydraddoldeb, e.e. grant mynediad i'r anabl mewn ysgolion, grant cyfleusterau i'r anabl. Dim effaith ar agenda'r Iaith Gymraeg.
F - Atodiadau:		
Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 3 2021/22 Atodiad B – Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn		
FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
<ul style="list-style-type: none"> • Cyllideb Gyfalaf 2021/22, fel yr argymhellwyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021; • Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021; • Adroddiad Alldro Cyfalaf 2020/21, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 21 Mehefin 2021; ac • Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Chwarter 1, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 27 Medi 2021 ac Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Chwarter 2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 29 Tachwedd 2021. 		

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Dyma adroddiad monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi'r cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.
- 1.2 Ym mis Mawrth 2021, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £15.842m ar gyfer 2021/22, a Rhaglen Gyfalaf o £20.313m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal, ym mis Mehefin 2021, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i Lithriad Cyfalaf o £11.898m gael ei ddwyn ymlaen o 2020/21, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £25.492m, a £22.561m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen, gwerth cyfanswm o £11.895m, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021/22 i £59.948m.

2. CYNNYDD GWARIANT YN 2021/22

- 2.1 Isod, mae tabl sy'n crynhoi'r gwariant Cyfalaf hyd at 31 Rhagfyr 2021, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 31 Rhagfyr 2021 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2021/22:-

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol £'000	Cyllideb a Broffiliwyd £'000	Gwariant Gwirioneddol £'000	Gwariant wedi ei Ymrwmo £'000	Cyfanswm Gwariant £'000	% y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario	% y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario
Cronfa Gyffredinol Tai	1,515	693	573	-	573	83	38
CRT Tai	22,561	10,060	6,349	317	6,666	66	30
Dysgu Gydol Oes	13,789	5,908	5,278	249	5,527	94	40
Economaidd ac Adfywio	5,763	2,219	838	46	884	40	15
Priffyrdd	8,730	3,370	2,457	285	2,742	81	31
Rheoli Gwastraff	2,276	2,270	2,270	-	2,270	100	100
Eiddo	2,399	600	588	-	588	98	25
Trawsnewid	824	461	218	49	267	58	32
Cynllunio	962	461	293	46	339	74	35
Gwasanaethau Oedolion	1,129	504	445	-	445	88	39
Cyfanswm	59,948	26,546	19,309	992	20,301	76	34
Cyllidwyd gan:							
Grant Cyfalaf	24,868						
Derbyniadau Cyfalaf	583						
Benthyca â Chefnogaeth	8,765						
Benthyca Digefnogaeth	4,697						
Cyfraniad Refeniw	17,887						
Cronfeydd Wrth Gefn	2,940						
Benthyciad	208						
Cyfanswm Cyllido	59,948						

- 2.2 Hyd at ddiwedd y trydydd chwarter, gwariwyd 83% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol. Fodd bynnag, dim ond 36% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o gynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol, megis y grant cyfalaf Chwarae, cynllun grant Prynwyr Tro Cyntaf a Landlordiaid, Cronfa Ffyrdd Cydnerth, Cronfa Trafnidiaeth Leol (gwelliannau isadeiledd), manau gwefru Cerbydau Trydan, ynghyd â'r cynllun Teithio Llesol. Mae hyn yn berthnasol hefyd i'r grantiau gwres carbon isel a gafodd eu cynnig ar ddiwedd chwarter 3, gyda'r gwaith yn digwydd, felly, yn chwarter 4. Mae nifer o gynlluniau cyfalaf yn mynd rhagddynt, gyda'r mwyafrif o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 3 wedi cael ei gwario ar gynlluniau megis Fflyd Gwastraff, gwaith ar do Canolfan Addysg y Bont, cynllun Chromebooks Addysg, Maes Chwarae Antur ym Mharc Gwledig y Morglawdd, cae chwarae 3G Caergybi, Ystafell Ffitrwydd Amlwch a chroesfan Lôn Parc Newydd. Mae'r cynlluniau hyn a'u proffil i'w gweld yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn 2021/22 ac mae diweddariad arnynt i'w weld yn Adran 3.1 yr adroddiad hwn.

2.3 Mae'r CRT wedi gwario 66% o'r gyllideb a broffiliwyd a 30% o'r gyllideb flynyddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd na fydd y gyllideb gyfan wedi'i gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a rhagwelir tanwariant sylweddol. Am ragor o wybodaeth am wariant cyfalaf y CRT a'r gwariant a ragwelir, gweler adroddiad monitro'r gyllideb CRT Ch3, a gyflwynir i'r Pwyllgor hwn ar 3 Mawrth 2022.

CYLLID

3.1 Grantiau Cyfalaf

3.1.1 Mae Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yn cynnwys nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf ac mae manylion am gynnydd yn chwarter 3 i'w gweld isod. Yr un yw pwrpas pob un o'r grantiau hyn ag a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 1 neu, os yw'n grant newydd a dderbyniwyd ar ôl chwarter 1, yna mae esboniad am y pwrpas yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad sy'n cyfeirio at y chwarter pryd y derbyniwyd y grant.

- **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy** – Mae gwaith ar yr Ysgol Corn Hir newydd yn dod yn ei flaen yn dda ar y safle, ac mae panelau wal ffrâm goed yr adeilad Cam 1 wedi'u cwblhau ac mae gwaith yn dechrau ar banelau wal yr adeilad Cam 2. Mae gwaith ar orffeniadau allanol wedi dechrau ar yr adeilad Cam 1 ac mae gwaith draenio safle wedi cychwyn hefyd. Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig – gwahoddwyd tendrau ac mae'r Cais Cynllunio Llawn yn barod i'w gyflwyno.
- **Grant Cyfalaf Gofal Plant** – Cwblhawyd y cynlluniau yn Ysgol Gwalchmai ac Ysgol Henblas. Ar hyn o bryd, mae gwaith yn cael ei wneud ar safleoedd ysgol presennol – Bodedern, Rhosneigr, Rhoscolyn a Fali.
- **Neuadd y Farchnad** – Cwblhawyd y gwaith cyfalaf yn gysylltiedig ag adeiladu cyn diwedd y flwyddyn galendr. Roedd hyn yn gymorth i sicrhau bod tenantiaid yn cael eu canfod ar gyfer gweddill y swyddfeydd, ac mae'r cyfan wedi'u gosod erbyn hyn. Trwy gwblhau elfennau o'r gwaith fesul cam, roedd yn bosib i Drafnidiaeth Cymru ddefnyddio'r ystafelloedd cyfarfod, gan ddilyn trefniadau Covid ddiogel, am 8 wythnos er mwyn darparu hyfforddiant i docynnwyr newydd.
- **Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflun)** – Mae gwaith ar y prosiect trydydd parti wedi'i gwblhau erbyn hyn, gan olygu y bu'n bosib i bobl leol symud i fyw i'r pedwar fflat newydd cyn y Nadolig, er bod angen cwblhau gwaith ar fân ddiffygion. Mae'r gwaith datblygu ar brosiectau Mynwentydd Sant Cybi a Sgwâr Swift wedi parhau ar gyflymder da, a chwblhawyd rhagor o archwiliadau erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Mae dogfennau tendr yn cael eu paratoi yn awr i gefnogi'r dyluniadau manwl terfynol a'r cyfnod gweithredu yn ystod y 12 mis nesaf.
- **Cynllun Hwb - Grant Isadeiledd mewn Ysgolion** - Ni chwblhawyd y gwaith o osod yr elfennau isadeiledd sy'n weddill yn Ysgol Uwchradd Bodedern ac Ysgol Gyfun Llangefni oherwydd pwysau'n ymwneud â Covid, a bydd yn cael ei wneud yn chwarter 4 yn awr. Derbyniwyd cyfran o ddyfeisiau Blwyddyn 3 ar ddiwedd chwarter 3, ac mae disgwyl y gweddill yn gynnwys yn chwarter 4. Y bwriad yw gosod y dyfeisiau yn chwarter 4 gan nad oedd yr archeb rannol a dderbyniwyd yn cynnwys elfennau hanfodol ar gyfer gosod a defnyddio'r dyfeisiau.

- **Porth Twristiaeth** – Cwblhawyd y dyluniadau manwl ar gyfer y Ganolfan Ymwelwyr a rhoddwyd y dogfennau tendr ar Gwerthwchi Gymru ddechrau mis Rhagfyr 2021. Yn anffodus, er i wyth o gontractwyr gofrestru diddordeb mewn tendro am y gwaith, ni chyflwynwyd yr un tendr i'w ystyried ar 24 Ionawr 2022. Yr adborth a dderbyniwyd gan yr holl ddarpar dendrwy oedd eu bod yn gweithio ar ymrwymadau tendr eraill. Mae'r Tîm Prosiect, gan gynnwys y tîm Caffael Corfforaethol, yn rhoi ystyriaeth frys i'r ffordd fwyaf ymarferol ymlaen. Mae opsiynau'n cynnwys ail-dendro'r gwaith neu gomisiynu trwy gytundeb fframwaith priodol, gan ystyried yr angen i gydymffurfio â gofynion y cyllidwr a sicrhau gwerth am arian. Mae cyllid ERDF mewn lle tan 31 Rhagfyr 2022 ac mae posibilrwydd o hyd y gellir cwblhau'r prosiect erbyn Hydref 2022; fodd bynnag, mae'r amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect yn mynd yn dynnach. Mae angen cytuno ar ffordd ymlaen ar fyrder ac erbyn diwedd mis Ionawr 2022 fan bellaf, er mwyn sicrhau bod modd caffael a dechrau gwaith ar y safle yn ystod chwarter 4.
- **Maes Chwarae Antur, Parc Gwledig y Morglawdd** – Mae'r gwaith o ddylunio a gosod maes chwarae antur ym Mharc Gwledig y Morglawdd wedi'i gwblhau.
- **Cam 2 Prosiect Penrhos** - Derbyniwyd caniatâd cynllunio ym Mhwyllgor Cynllunio mis Rhagfyr. Derbyniwyd tri thendr yn sgil y broses dendro. Roedd y tri thendr a dderbyniwyd yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol. Mae trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd ynghylch sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer y prosiect. Bydd y contractwr a ffafrir yn cael ei benodi yn ystod chwarter 4, ar ôl datrys y diffyg cyllidol.
- **Prosiect Porth Llangefni** – Mae Safle Porth Llangefni (Parc Diwydiannol Tregarnedd) yn ardal yn Llangefni lle bydd 7 plot yn cael eu datblygu yn y pendraw.
 - **Unedau Porth (ERDF)** – Dechreuodd gwaith paratoi'r safle ddiwedd chwarter 3, a'r bwriad yw cychwyn y gwaith adeiladu ddechrau chwarter 4. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod chwarter 2 2022/23.
 - **Cyd-Fenter Porth** - Rhagwelir y bydd y mwyafrif o'r gwaith ar y safle'n cychwyn yn ystod chwarter 4 2021/22, ochr yn ochr â'r elfen Unedau Porth (ERDF). Gan mai Wynne Construction sydd bennaf gyfrifol am yr elfennau cyd-fenter o dan yr un contract (er bod y ddau brosiect yn cael eu hariannu ar wahân), mae'r oedi cyn i Wynne gychwyn gwaith ar y safle'n berthnasol i'r gwaith Cyd-fenter hefyd, gan y byddai cychwyn y gwaith yn gynharach wedi denu mwy o gostau. Trefnwyd bod gwaith archeolegol yn cychwyn ddechrau chwarter 4.
- **Cynlluniau Draenio Caergybi ac Amlwch** – Mae'r astudiaethau hyn yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Yng Nghaergybi, mae'r arolygon CCTV wedi'u cwblhau er mwyn llywio'r gwaith o adeilau'r model a'r bwriad yw y bydd hynny'n cael ei wneud yn ystod chwarter 4. Yn Amlwch, cytunwyd ar y fanyleb foddelu a chynhaliwyd cyfarfod safle gyda'r ymgynghorydd modelu. Bydd y ddwy astudiaeth yn parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf.
- **Mân Waith Grant (15 lleoliad)** - Mae'r cynlluniau'n mynd rhagddynt. Fodd bynnag, ni fydd y cynlluniau arfaethedig yn Clyttr Mynydd Bodafon, Lôn Ganol Llandegfan a Phant Lodge Llanfairpwll yn digwydd eleni oherwydd anawsterau ar y safle (cyfyngiadau amgylcheddol ac archeolegol), yr angen i ddod i gytundeb â thua phedwar perchennog tir gwahanol, yn ogystal â chapasiti staffio presennol tîm Dylunio'r Gwasanaeth. Byddant yn cael eu hailgyflwyno i'w cymeradwyo'r flwyddyn nesaf.
- **Lliniaru Llifogydd ym Miwmares** – Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith ar y safle yn yr haf, gyda rhan o'r gwaith yn cael ei ohirio. Nid oes dim i'w adrodd yn chwarter 3, gan fod y gwaith wedi'i ohirio unwaith yn rhagor oherwydd capasiti staffio presennol tîm Dylunio'r Gwasanaeth.

- **Traeth Coch** – Cwblhawyd yr ymgynghoriad ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer Cynlluniau Rheoli Risgiau Arfordirol hyd at fis Mawrth 2023. Mae gwaith dylunio a datblygu bron â'i gwblhau. Bwriedir rhyddhau'r tendrau ddiwedd mis Ionawr 2022, gyda'r bwriad o ddyfarnu ym mis Mehefin 2022, gyda'r gwaith adeiladu'n cychwyn ym mis Hydref 2022.
- **Achos Busnes Llawn Llanfairpwll, Porthaethwy a'r Fali (ABLI)** – Mae'r tri chynllun llifogydd yn mynd rhagddynt. Mae pryderon ynglŷn â'r heriau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffafrir ar gyfer Llanfairpwll a rhagwelir y bydd angen rhagor o waith yma. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r ymgynghorydd sy'n gweithio ar y prosiect. Bydd ABLI (Dylunio a Datblygu) cynllun Llanfairpwll yn parhau yn bell i'r flwyddyn ariannol newydd. Mae cynllun y Fali (ABLI) wedi'i gwblhau a dyfarnwyd y contract adeiladu, a bydd y gwaith yn cychwyn ym mis Chwefror 2022. Cynhaliwyd rhagor o ymchwiliadau ac arolygon draenio ar gynllun Porthaethwy, a defnyddir y wybodaeth i adeiladu'r model hydrologig ac i lywio dyluniad y cynllun. Bydd hyn yn parhau dros yr haf. Felly, ni fydd y gwaith adeiladu'n dechrau tan o leiaf ddiwedd 2022/23.
- **Mill Lane - Strwythur a Rheoli Llifogydd yn Naturiol** - Mae'r gridyll mecanyddol arloesol sy'n glanhau ei hun (yr unig system o'i fath yng Nghymru ar hyn o bryd) wedi cael ei gomisiynu. Mae'r peiriant wedi cael ei fonitro'n ofalus yn ystod y gaeaf i asesu ei berfformiad a'i effeithiolrwydd, a dysgwyd rhai gwersi'n barod. Mae rhai addasiadau, yn cynnwys system fonitro CCTV, yn cael eu hystyried. Mae trafodaethau'n parhau â'r tiffeddiannwr, er eu bod yn datblygu'n araf. Gwnaed rhywfaint o gynnydd, ac efallai y bydd modd cynnal arolygon yn fuan.
- **Rheoli Llifogydd yn Naturiol ar Gwrs Dŵr Cyffredin Dwyran** – Mae'r cynllun hwn fwy neu lai wedi'i gwblhau (er bod angen rhoi sylw i rai mân ddiffygion) ac mae'n parhau i gael ei fonitro er mwyn dysgu mwy am ei effeithiolrwydd. Mae Prifysgol Glyndŵr yn monitro llif y dŵr hefyd ar gyfer eu hymchwil academaidd.
- **Galluogi** – Gwariwyd arian yn chwarter 3 ar waith brys i ganiatáu rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac ar gyfer cleientiaid sy'n derbyn gofal lliniarol ac rydym yn disgwyl am anfonebau gan Gofal a Thrsio. Disgwylir y bydd y grant hwn wedi'i hawlio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.
- **Cyllid Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd** – Sicrhawyd cyllid o £0.300m. Mae'r prosiect yn cynnwys gosod mesurau diogelwch ar yr A545, o Borthaethwy i Fiwmars. Gwariwyd £0.225m hyd at chwarter 3, a bydd gwariant yn parhau yn chwarter 4 er mwyn gosod arwyddion gwell ar yr A545 i wella cydymffurfiaeth â'r cyfyngiad cyflymder o 40mya. Yn ogystal, bydd y palmentydd yn cael eu gwella ac ym ymgorffori cyrbiau isel. Yn wreiddiol, bwriadwyd defnyddio'r cyllid i ddarparu croesfan wedi'i rheoli ar y brif stryd ym Miwmars. Fodd bynnag, ar ôl cynnal trafodaethau â'r Cyngor Tref, mae'r cynllun hwn wedi cael ei dynnu'n ôl oherwydd diffyg cefnogaeth yn lleol. Bydd yr Awdurdod yn ceisio cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r cyllid ar gyfleuster tebyg mewn lleoliad arall ar yr Ynys, a bydd y gyllideb wedi'i gwario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.
- **Teithio Llesol** – Dyfarnwyd cyllid ychwanegol yn hwyr yn chwarter 2, sy'n golygu bod y cyfanswm a ddyfarnwyd yn £1.030m. Mae cyllid o'r grant wedi cael ei ddyrannu fel a ganlyn:-

- **£0.325m** ar gyfer gwaith Craidd yn ymwneud â chynigion ar gyfer nifer o gynlluniau. Cwblhawyd yr Ymgynghoriad Teithio Llesol Statudol ar 30 Tachwedd a chynhaliwyd sesiwn frifio ar Deithio Llesol i Aelodau a chyflwynwyd diweddariad i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Cyflwynwyd y Map Rhwydwaith Teithio Llesol a dogfennau ategol i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021. Cwblhawyd gwaith dylunio, paratoi ac ymgysylltu mewn perthynas â chynllun Llanfairpwll. Cynhaliwyd proses dendro ar gyfer astudiaethau Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ym Menllech, y Fali ac Amlwch a phenodwyd ymgynghorwyr ar gyfer lleoliad pob cynllun. Cwblhawyd y gwaith yn Lôn Parc Newydd, Caergybi.
- **£0.100m** i ddatblygu llwybr yn ardal Caergybi, sy'n rhan o gynllun Metro Gogledd Cymru LIC. Penodwyd cwmni Ymgynghorol a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Rhagfyr 2021. Cytunwyd ar raglen waith i gwblhau'r cam dyluniad cysyniadol (Cam 3C WelTAG) erbyn mis Mawrth 2022.
- **£0.170m** - Pentraeth i Draeth Coch - gwaith ail-wynebu a lledu llwybr troed i wella'r cysylltiad rhwng Pentraeth a Thraeth Coch, a allai fod yn gatalydd ar gyfer gwaith pellach yn y dyfodol er mwyn gwneud rhagor o welliannau ac ymestyn y llwybr i Fenllech. Cwblhawyd y gwaith dylunio a phenodwyd contractwr ar gyfer y llwybr o Draeth Coch i Bentraeth (30mya), a bydd y gwaith yn cael ei wneud ym mis Chwefror a Mawrth 2022. Penodwyd Ove Arup i wneud gwaith dylunio ar gyfer y rhan o'r llwybr o'r parth 30mya ym Mhentraeth (ochr Benllech) i'r sgwâr yng nghanol y pentref. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ac mae gwaith datblygu wedi'i wneud er mwyn cynllunio gwahanol opsiynau mewn perthynas â'r uchod. Hefyd, mae Ove Arup wedi cynnal ymweliad safle i gynorthwyo gyda'r broses ddiwedd i benderfynu pa welliannau realistig y gellir eu gwneud yng nghanol y pentref.
- **£0.185m** - Canol Tref Llangefni a'r ardal breswyl ar gyrion Canol y Dref - gwella'r llwybrau presennol yn unol â safonau Cyd-ddefnydd a gwella cysylltiadau o Faes Hyfryd i gyrion ardal canol y dref. Ymgynghorwyd â Chyngor Tref Llangefni a Grŵp Adfywio Llangefni, ac maent wedi nodi eu cefnogaeth ffurfiol i'r cynllun. Cwblhawyd gwaith dylunio ar gyfer y rhan ar gyrion canol y dref (Maes Hyfryd i'r B5111) a threfnwyd bod y contractwr yn cychwyn y gwaith ddiwedd mis Ionawr 2022. Bydd gwaith galluogi'n cychwyn ddiwedd mis Ionawr yng nghanol y dref i benderfynu ar sgôp y gwelliannau yn yr ardal ger Stryd y Bont. Trafodaethau ynghylch y cynhyrchion i'w harchebu, gan gynnwys dyfeisiau cyfrif, cysgodfannau / loceri beiciau, bolardiau, mannau gwefru beiciau trydan ac ati.
- **£0.250m** – Lôn Las – ailwynebu a lledu'r llwybr cyd-ddefnydd presennol. Ymgynghorwyd â Chyngor Tref Llangefni a Grŵp Adfywio Llangefni, ac maent wedi nodi eu cefnogaeth ffurfiol i'r cynllun. Cwblhawyd gwaith dylunio'r gwelliannau arfaethedig, ond, mae hyn yn ddibynnol ar sicrhau cymeradwyaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru (cynhelir trafodaethau ddiwedd mis Ionawr 2022 i gadarnhau pa elfennau o'r dyluniad y gellir eu cwblhau ac a oes angen unrhyw addasiadau). Mae Ove Arup wedi dechrau asesu'r gwelliannau y gellir eu gwneud i'r groesfan ar yr A5 (i ddarparu croesfan fwy diogel a deniadol) ac maent yn disgwyl am bris gan y prif contractwr.
- **Cronfa Ffyrdd Cydnerth** – Cwblhaodd yr Awdurdod ymarfer caffael i gomisiynu ymgynghorwyr allanol (Atkins Ltd) i gynnal astudiaeth WelTAG Cam 3 ar ddau gynllun posib ar yr A545, ac mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant ychwanegol o £100k i gwrdd â chostau tendr ychwanegol.

- **Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel iawn** - Mae trafodaethau'n parhau â Scottish Power Energy Networks (SPEN) i gadarnhau gofynion dylunio trydanol er mwyn gwireddu'r prosiect manau gwefru cerbydau trydan mewn lleoliadau canol tref. Cwblhawyd arolygon topograffig a gwaith paratoi i benderfynu ar lwybr caffael (nodwyd problemau oherwydd diffyg cwmnïau sy'n darparu peiriannau hunanwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg). Nodwyd opsiynau ar gyfer llwybr caffael ynghyd â'r dogfennau tendr drafft, a bydd y llwybr a ffafir yn cael ei ddewis ym mis Ionawr 2022. Paratowyd dyluniad o osodiad maes parcio i gynnwys isadeiledd gwefru cerbydau trydan a threfnwyd ymweliad safle ar gyfer gosod isadeiledd/ceblau trydan o'r is-orsaf i leoliad y Gwefrydd Cerbydau Trydan yn y maes parcio. Nodwyd eitemau a gwaith cysylltiedig fydd eu hangen fel rhan o'r gwaith gosod (Cabinet GRP / ailwynebu / bolardiau / cyrbiau ac ati) a byddant yn cael eu cynnwys wrth ddrafftio'r dyluniad terfynol ar gyfer y gwaith. Mae Cyngor Tref Biwmares yn arwain ar gynlluniau gosod manau gwefru cerbydau trydan yng nghanol y dref, felly, i osgoi dyblygu, ni fydd y prosiect hwn yn darparu manau gwefru cerbydau trydan ym Miwmares fel rhan o'r prosiect. Roedd gan elfennau eraill o'r prosiect gostau uwch a chostau nad oeddent wedi cael eu rhagweld, felly, mae peidio â gwneud y gwaith ym Miwmares yn golygu nad oes effaith ar y gyllideb gyffredinol (hyd yma). Rhagwelir gorwariant oherwydd costau'n gysylltiedig â gosod manau gwefru cerbydau trydan - bydd hyn yn cael ei gadarnhau ddiwedd mis Ionawr ar ôl cynnal cyfarfod â'r Prif Gontractwr i gadarnhau'r costau a chost yr unedau gwefru.
- **Cronfa Trafnidiaeth Leol - Gwelliannau isadeiledd** - Dyfarnwyd £0.750m ar gyfer Gwelliannau Isadeiledd ar Ynys Môn i gefnogi'r gwaith o ddarparu rhwydwaith bysiau (Metro Gogledd Cymru) ar ran Trafnidiaeth Cymru. Roedd gwaith yn ystod chwarter 3 yn cynnwys comisiynu Arup i gwblhau gwaith dichonolrwydd, datblygu a dylunio gwelliannau i safleoedd bws mewn 8 prif leoliad yng nghanol trefi. Disgwylir y bydd cyfran sylweddol o'r cyllid yn cael ei wario ar isadeiledd technolegol yn y prif safleoedd/cyfnewidfeydd bysiau, ond mae'r gwariant hwn yn ddibynnol ar gydweithio gyda chydweithwyr yn Nhrefnidiaeth Cymru ac mae'r trafodaethau'n parhau.
- **Grantiau Gwresogi Carbon Isel – Ddyfarnwyd cyllid grant i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru** mewn perthynas â grantiau Carbon Isel yn y Sector Cyhoeddus (ar gyfer Ysgol Gynradd Moelfre (£0.091m) a Swyddfeydd y Cyngor (£1.033m)) er mwyn cynorthwyo i gyflenwi a gosod pypiau gwresogi. Cynigiwyd y grantiau hyn ar ddiwedd chwarter 3 ac oherwydd y gofyniad i gwblhau'r gwaith erbyn diwedd y flwyddyn, mae hon yn dasg uchelgeisiol ac mae'r amserlen yn dynn. Archebwyd y generadur Pwmp Gwresogi Carbon Isel ac mae'n debygol o fod ar gael i'w gyflenwi cyn diwedd mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, nodwyd risg yn gysylltiedig â chynllunio a allai olygu na roddir caniatâd cynllunio tan ar ôl 31 Mawrth 2022. Bydd hynny'n creu oedi o ran gosod a gweithredu'r pwmp gwresogi. Hysbyswyd Llywodraeth Cymru am y sefyllfa ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i ddatrys unrhyw broblemau i wneud yn siŵr y gellir hawlio'r cyllid yn llawn.

3.2 Derbyniadau Cyfalaf

3.2.1 Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hon hyd yma a'r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer:-

	Cyllideb 2021/22 £'000	Derbyniwyd hyd at 31-Rhagfyr-2021 £'000	Rhagolwg i 31-Mawrth-2022 £'000
Cronfa'r Cyngor:			
Mân-ddaliadau	300	405	405
Cyffredinol	284	1,297	1,297
Diwydiannol	0	0	0
Ysgolion	192	0	553
Cyfanswm	776	1,702	2,255

3.2.2 Y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2022 yw £2.255m, a derbyniwyd £1.702m erbyn 31 Rhagfyr 2021 (75%). Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys yr arian a dderbyniwyd yn sgil gwerthu'r cwrs golff (cyfanswm o £0.850m am dir ac adeilad). Mae'r derbyniadau cyfalaf a ragwelir yn sylweddol uwch na'r ffigwr yn y gyllideb oherwydd bod y gyllideb yn seiliedig ar yr asedau a oedd yn cael eu dal i'w gwerthu ar ddiwedd y flwyddyn yn 2021 (h.y. asedau yr oedd disgwyl iddynt gael eu gwerthu yn ystod y 12 mis nesaf). Yn anochel, mae asedau eraill y Cyngor yn cael eu marchnata a'u gwerthu / disgwylir i'w gwerthu drwy gydol y flwyddyn nad oeddent yn cael eu dal i'w gwerthu ar ddiwedd 2021. Felly, erbyn hyn, maent yn cael eu cynnwys yn y ffigwr gwirioneddol neu yn y rhagolwg.

3.2.3 Er bod y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir yn £2.255m, mae £3.004m o Dderbyniadau Cyfalaf ar gael i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf oherwydd bod £0.749m o Dderbyniadau Cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2020/21 yn y Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf. Ni fydd y cyfan o'r ffigwr hwn ar gael i gyllido rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol gan y bydd cyllid yn cael ei glustnodi i gyllido'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â chronfa wrth gefn Hamdden i gyllido gwelliannau ym maes hamdden.

4. GWARIANT CYFALAF GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2021/22

4.1 Isod mae tabl gydag amcangyfrif o'r gwariant a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2022 a'r cyllid diwygiedig:-

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol £'000	Gwariant a Ragamcenir £'000	(Tan) / Gor Wariant a Ragamcenir £'000	Amrywiad %
Cronfa Tai Gyffredinol	1,515	1,025	(490)	(32)
CRT Tai	22,561	10,392	(12,169)	(54)
Dysgu Gydol Oes	13,789	8,164	(5,625)	(41)
Economaidd ac Adfywio	5,763	2,351	(3,412)	(59)
Priffyrdd	8,730	5,734	(2,996)	(34)
Rheoli Gwastraff	2,276	2,273	(3)	(0)
Eiddo	2,399	1,921	(478)	(20)
Trawsnewid	824	459	(365)	(44)
Cynllunio	962	449	(513)	(53)
Gwasanaethau Oedolion	1,129	1,010	(119)	(11)
Cyfanswm	59,948	33,778	(26,170)	(44)
Cyllidwyd gan:	Cyllideb Flynyddol £'000	Cyllid a Ragamcenir £'000	Amrywiad £'000	Amrywiad %
Grant Cyfalaf	24,868	21,166	(3,702)	(15)
Derbyniadau Cyfalaf	583	477	(106)	(18)
Benthyca â Chefnogaeth	8,765	3,490	(5,275)	(60)
Benthyca Digefnogaeth	4,697	2,035	(2,662)	(57)
Cyfraniad Refeniw	17,887	5,402	(12,485)	(70)
Cronfeydd wrth Gefn	2,940	1,000	(1,940)	(66)
Benthyciad	208	208	0	0
Cyfanswm Cyllid	59,948	33,778	(26,170)	(44)

4.2 Fel y gwelir yn Nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yw £26.170m, gyda'r swm hwn yn llithro, o bosib, i Raglen Gyfalaf 2022/23. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2022/23 a bydd yn cael ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23.

Rhagwelir tanwariant sylweddol yn y CRT, fel yr eglurir yn adroddiad monitro chwarter 3 y CRT. Rhoddir crynodeb isod o'r tanwariant sylweddol a ragwelir yn rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol:-

Ysgolion Newydd

Mae'r gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn rhagweld tanwariant sylweddol, a'r prif reswm yw'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Cafwyd oedi yn wreiddiol oherwydd yr angen i gynnal ymgynghoriad pellach ar foderneiddio'r ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd erbyn hyn ac mae gwaith ar safle'r ysgol newydd yn mynd rhagddo'n dda. Gwahoddwyd tendrau ac mae'r cais cynllunio'n barod i'w gyflwyno ar gyfer yr Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig.

Adeiladau Addysg – mynediad i'r anabl

Rhagwelir tanwariant ar addasiadau ar gyfer yr anabl mewn adeiladau addysg. Mae hyn oherwydd bod yr addasiadau wedi'u cwblhau ym mhob ysgol uwchradd namyn un. Mae'r gwaith wedi'i ohirio yn yr ysgol uwchradd sy'n weddill wrth ddisgwyl canlyniad astudiaethau dichonolrwydd. Mae gwaith yn cael ei wneud mewn ysgolion cynradd pryd a phan fydd angen.

Adeiladau Addysg - adnewyddu

Rhagwelir tanwariant erbyn hyn ar y rhaglen adnewyddu adeiladau addysg ar gyfer 2021/22. Mae hyn oherwydd oedi wrth gyflenwi ffenestri ar gyfer dau brosiect mawr (sef Ysgol Gynradd Santes Fair ac Ysgol Gynradd Kingsland). Fodd bynnag, mae'r gyllideb wedi'i hymrwymo ac, oherwydd yr oedi, bydd yn llithro i flwyddyn ariannol 2022/23.

Canolfan Addysg y Bont

Bu cynnydd sylweddol yng nghostau'r gwaith ar do Canolfan Addysg y Bont o gymharu â'r hyn nodwyd yn yr adroddiad chwarter 1, a bellach mae'r gyllideb yn £1.5m. Fodd bynnag, mae gwaith gosod sgaffaldiau wedi cychwyn a bydd wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae dyluniad y to newydd wedi'i gwblhau ac, ar hyn o bryd, mae'r costau'n cael eu trafod gyda'r contractwr. Mae trafodaethau cyfreithiol yn mynd rhagddynt ac ni chytunwyd ar ddyddiad cychwyn eto, felly, bydd y cynllun hwn yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Cynlluniau Economaidd a Phrifyrdd

Y rheswm am y tanwariant a ragwelir yn y cynlluniau Economaidd a Phrifyrdd yw bod prosiectau'n pontio dwy flynedd ariannol a bydd rhai ohonynt yn cael eu cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

TG

Rhagwelir y bydd y gyllideb Isadeiledd Craidd TG yn gwario dim ond 12% o'i chyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Oherwydd bod rhaid adnewyddu'r brif system storio fflach yn 2022/23, mae'r tanwariant yn fwriadol a bydd yn helpu i gyllido'r gost yma. Hefyd, oherwydd Covid a'r angen i gael dau berson yn gweithio yn y ganolfan ddata, mae gwaith cyfnewid gweinyddion wedi cael ei osgoi yn fwriadol. Bydd y cyllid hefyd yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf, fel y nodir uchod, ac ni cholli'r unrhyw gyllid.

Eiddo

Oherwydd y cynnig hwyr o grantiau Gwresogi Carbon Isel gan Lywodraeth Cymru, mae'n bosib y bydd tanwariant ar y cynlluniau hyn, fel y nodir ym mharagraff 3.1.1 uchod.

Mae'n debygol y bydd y rhaglen adnewyddu adeiladau nad ydynt yn adeiladau ysgol yn tanwario oherwydd i'r prosiectau ym Mhlas Arthur, a oedd wedi'u cynnwys yn y gyllideb, gael eu gohirio gan fod Canolfan Addysg y Bont yn defnyddio'r safle.

Cerbydau

Rhagwelir tanwariant yn y gyllideb ar gyfer cerbydau ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cynllun yn cael ei roi ar waith i ddarparu manau gwefru cerbydau trydan yn maes parcio cerbydau'r Cyngor (y compownd), ond nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau, ac ni fydd cerbydau trydan yn cael eu harchebu tan fydd y gwaith wedi'i gwblhau. Bydd cerbydau eraill yn cael eu harchebu cyn diwedd y flwyddyn (2 fws mini wedi'u haddasu a 2 gerbyd 4x4) ond, oherwydd yr amser aros cyn cyflenwi'r cerbydau, ni fyddant yn cael eu cyflenwi cyn diwedd y flwyddyn ac, felly, bydd angen i'r gyllideb lithro i flwyddyn ariannol 2022/23.

Gwelliannau Hamdden

Ni fydd y gyllideb ar gyfer gwelliannau hamdden yn cael ei gwireddu cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r gyllideb sy'n weddill ar gyfer gwaith datblygu ym Mhlas Arthur gan ddefnyddio'r cyllid a gafwyd yn sgil gwerthu'r cwrs golff. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â chwmni ynghylch y cynlluniau. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw ddatblygiadau cyn diwedd y flwyddyn, a dyna'r rheswm am y tanwariant a ragwelir. Serch hynny, mae cynlluniau ar gyfer y gyllideb yn ystod flwyddyn ariannol nesaf, felly, bydd angen i'r gyllideb sy'n weddill lithro.

Plas Crigyll a Phlas Mona

Erbyn hyn, rhagwelir tanwariant yn y gyllideb ar gyfer prosiectau yn y cartrefi gofal. Mae'r gwaith wedi'i ohirio ym Mhlas Mona oherwydd cyfyngiadau mynediad parhaus yn sgil Covid. Ym Mhlas Crigyll, bu oedi hir wrth gyflenwi'r ffenestri yr oedd eu hangen ac mae anghydfod wedi codi ynghylch y swm yr ydym yn fodlon ei dalu am gostau ychwanegol. Bydd angen i'r gwaith hwn gael ei wneud ac mae'n debyg y bydd yn cael ei aildendro yn y flwyddyn ariannol newydd.

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Bydd modd cyflawni'r amcangyfrif o wariant ar ddiwedd y flwyddyn a nodwyd yn chwarter 2 ar gyfer Ysgol y Graig os bydd y pryniant tir wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2022. Y sefyllfa yn chwarter 3 oedd na fyddai'r pryniant tir wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn oherwydd oedi wrth gyflwyno'r cais cynllunio.

Mae'r tanwariant a ragwelir ar gyfer yr Ysgol Corn Hir newydd wedi cynyddu o gymharu â'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 2. Roedd yr amcangyfrif gwreiddiol yn seiliedig ar ragolwg llif arian y contractwyr ond, hyd yn hyn, nid yw'r symiau misol yn cyd-fynd â'r rhagolwg. Felly, mae'r ffigyrau wedi cael eu hail-broffilio ac maent yn rhoi amcangyfrif mwy cywir o'r gwariant.

- 4.3** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2022 yw £138.754m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod fenthycu er mwyn gallu cyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae benthycu allanol yn £124.951m, sy'n golygu yn ei hanfod bod angen i'r Awdurdod fenthycu £13.803m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os ymgymerir â'r benthycu hwn yn allanol, bydd yr Awdurdod yn dal i fod o fewn ei derfynau benthycu awdurdodedig, yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22 (Atodiad 11).

5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

- 5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2021/22 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthycu â chefnogaeth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn dilyn yr un egwyddorion, gyda'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthycu â Chefnogaeth yn cael eu defnyddio i gyllido prynu Cerbydau newydd bob blwyddyn, Buddsoddi mewn TGCh, Adnewyddu asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am gost y grantiau statudol i ddarparu Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd yna brosiectau cyfalaf hefyd sy'n denu grantiau allanol, a byddant yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gan roi blaenoriaeth i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor, fel y'u nodir yng Nghynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-22, ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refereniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

Cyflwynwyd y Gyllideb Gyfalaf ddrafft i'r Pwyllgor hwn ar 24 Ionawr 2022 a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn ei chymeradwyo yn y dyfodol agos. Cyflwynir y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor hwn hefyd ar 3 Mawrth 2022.

6. CASGLIAD

6.1 Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau yn y rhaglen gyfalaf yn mynd rhagddynt, er y rhagwelir tanwariant sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, gyda 44% o'r gyllideb gyffredinol heb ei gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r rhesymau am y tanwariant yn amrywio o brosiect i brosiect a gellir ei briodoli i nifer o ffactorau, gan gynnwys targedau rhy uchelgeisiol yn y gyllideb, materion caffael, yn cynnwys diffyg marchnad gystadleuol, materion cynllunio, materion cyllido a diffyg capasiti mewnol. Mae sefyllfa gyfredol y diwydiant adeiladu wedi dwysau'r problemau, gyda chynnydd sylweddol mewn prisiau, prinder deunyddiau a chyfyngiadau Covid yn golygu ei bod yn anoddach sicrhau'r cynnydd a gynlluniwyd ar brosiectau. Er gwaetha'r llithriad sylweddol, nid oes disgwyl i'r Cyngor golli unrhyw gyllid allanol o ganlyniad i'r oedi.

Crynodeb o Wariant y Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

Gwasanaeth	Cyllideb Flyneddol (£)	Cyllideb a Broffiliwyd (£)	Gwariant Gwioneddol (£)	Gwariant a Ymrwymwyd (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Amrywiad i'r Proffil (£)	Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%)	Gyllideb Flyneddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragamcenir (£)	(Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir (£)	Amrywiad (%)
Cronfa Dai Gyffredinol											
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	600,000	450,000	377,329	0	377,329	(72,671)	84	63	600,000	0	0
Grant Prynwyr tro Cyntra TRIP	99,000	50,000	48,817	0	48,817	(1,183)	98	49	99,000	0	0
Cynllun Grant Landlord TRIP	20,000	15,000	15,537	0	15,537	537	104	78	20,000	0	0
Safie Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr	492,977	33,353	33,353	0	33,353	(0)	100	7	33,353	(459,624)	(93)
Cynllun Prynw Gorfodol	170,000	70,000	66,387	0	66,387	(3,613)	95	39	170,000	0	0
Grant Galluogi	102,520	75,000	31,304	0	31,304	(43,696)	42	31	102,520	0	0
Tai fforddiadwy	30,650	0	0	0	0	0	0	0	0	(30,650)	(100)
CYFANSWM	1,515,147	693,353	572,727	0	572,727	(120,626)	83	38	1,024,873	(490,274)	(32)
CRT Tai											
Contract Gwres Canolog	400,000	100,000	0	0	0	(100,000)	0	0	300,000	(100,000)	(25)
Cerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Tai	0	0	38,263	0	38,263	38,263	100	100	159,433	159,433	100
Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd	4,725,000	3,000,000	1,858,232	57,091	1,915,323	(1,084,677)	64	41	2,750,000	(1,975,000)	(42)
Gwella Perfformiad Ynni	1,000,000	200,000	99,237	1,899	101,136	(98,865)	51	10	400,000	(600,000)	(60)
Gwaith Amgylcheddol	880,000	580,000	17,078	95,782	112,860	(467,140)	19	13	200,000	(680,000)	(77)
Prynw Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd	13,005,797	5,000,000	3,666,662	117,017	3,783,679	(1,216,321)	76	29	5,425,086	(7,580,711)	(58)
Addasiadau Sector Cyhoeddus	350,000	250,000	169,628	45,150	214,779	(35,221)	86	61	350,000	0	0
Risq Tân	450,000	225,000	221	0	221	(224,780)	0	0	50,000	(400,000)	(89)
Tir Halogedig	0	0	7,623	0	7,623	7,623	100	100	7,623	7,623	100
SATC	1,750,000	705,000	492,587	0	492,587	(212,413)	70	28	750,000	(1,000,000)	(57)
CYFANSWM	22,560,797	10,060,000	6,349,531	316,939	6,666,470	(3,393,531)	66	30	10,392,142	(12,168,655)	(54)
Dysgu Gydol Oes											
Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol	400,000	250,000	248,466	4,252	252,717	2,717	101	63	252,717	(147,283)	(37)
Adnewyddu Adeiladau Addysg	2,418,803	1,600,000	1,582,929	0	1,582,929	(17,071)	99	65	1,883,000	(535,803)	(22)
Diogelwch Ysgolion	200,000	100,000	59,261	0	59,261	(40,739)	59	30	94,261	(105,739)	(53)
Dymchwil ysgolion	33,150	33,150	101,295	0	101,295	68,145	306	306	101,295	68,145	206
Canolfan Addysg y Bont - To	1,500,000	500,000	350,874	127,991	478,865	(21,135)	96	32	478,865	(1,021,135)	(68)
Chromebooks Addysg	305,000	305,000	304,917	0	304,917	(83)	100	100	305,000	0	0
Ailwynebu Ardal Chwarae	300,000	300,000	287,044	0	287,044	(12,957)	96	96	300,000	0	0
Grant Cyfalaf Dechra'n Deg	217,000	150,000	136,022	2,879	138,901	(11,099)	93	64	217,000	0	0
Grant Chwarae	112,000	0	0	0	0	(0)	0	0	112,000	0	0
Grant Cynyddu Capasiti Gofal Plant (costau rheoli prosiect a chynllun grant)	269,515	50,000	35,189	0	35,189	(14,811)	70	13	269,515	0	0
Grant Cynyddu Capasiti Gofal Plant (darpariaethau Gofal Plant)	792,901	400,000	351,326	27,617	378,943	(21,057)	95	48	792,901	0	0
Cwblhau'r Rhaglen Band A	5,717,000	2,019,560	1,669,562	21,280	1,690,841	(328,719)	84	30	3,065,965	(2,651,035)	(46)
Cychwyn Rhaglen Band B	1,523,000	200,000	150,982	65,002	215,984	15,984	108	14	290,984	(1,232,016)	(81)
CYFANSWM	13,788,369	5,907,710	5,277,866	249,020	5,526,886	(380,824)	94	40	8,163,503	(5,624,866)	(41)
Economaidd ac Adfywio											
Gwelliannau Hamdden	198,722	0	0	0	0	(0)	0	0	0	(198,722)	(100)
Cae Chwarae 3G Caergybi	150,000	150,000	154,993	0	154,993	4,993	103	103	154,993	4,993	3
Ystafell Ffritrwydd Amlwch	70,000	60,000	55,831	0	55,831	(4,169)	93	80	70,000	0	0
Croesfan Lôn Parc Newydd	30,000	15,000	12,683	0	12,683	(2,317)	85	42	30,000	0	0
Porth Twristiaeth	1,340,000	280,000	3,558	18,951	22,509	(257,491)	8	2	32,509	(1,307,491)	(98)
Isadeiledd Strategol Caergybi	150,000	120,000	119,393	0	119,393	(607)	99	80	150,000	0	0
Penrhos - Cam 2	1,107,000	400,000	14,195	6,063	20,258	(379,742)	5	2	20,258	(1,086,742)	(98)
Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio	5,565	2,000	1,487	0	1,487	(513)	74	27	5,565	0	0
Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol	100,000	0	0	0	0	(0)	0	0	100,000	0	0
Lithfra Porth y Wrach - Camerau Gorfodi	30,000	0	0	0	0	(0)	0	0	0	(30,000)	(100)
Aiddatblygu Safie Ysgol TRIP	7,222	0	0	0	0	(0)	0	0	7,222	0	0
Unedau Porth (ERDF)	1,833,150	800,000	210,881	11,341	222,222	(577,778)	28	12	1,202,551	(630,599)	(34)
Cyd-fenter Safie Porth	231,000	170,000	15,795	9,275	25,070	(144,930)	15	11	55,070	(175,930)	(76)
Shell Penns	50,000	50,000	62,501	0	62,501	12,501	125	125	62,501	12,501	25
Grant Covid Trawsnewid Trefi	10,064	0	0	0	0	(0)	0	0	10,064	0	0
Cerbyd Cyfoeth Naturiol Cymru	14,261	0	14,111	0	14,111	14,111	100	99	14,261	0	0
AHNE - Adferiad Gwyrdd	257,935	20,000	20,161	0	20,161	161	101	8	257,935	0	0
Grant AHNE - Cerbyd Trydan	26,121	0	0	0	0	(0)	0	0	26,121	0	0
Grant AHNE - Maes Chwarae Antur, Parc y Morglawdd	152,314	152,314	152,314	0	152,314	0	100	100	152,314	0	0
CYFANSWM	5,763,354	2,219,315	837,903	45,630	883,533	(1,335,781)	40	15	2,351,364	(3,411,990)	(59)

Gwasanaeth	Cyllideb Flynnyddol (£)	Cyllideb a Broffiliwyd (£)	Gwariant Gwirioneddol (£)	Gwariant a Ymrwymwyd (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Amrywiad i'r Proffil (£)	Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%)	Gyllideb Flynnyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragamcener (£)	(Tan)/Gorwariant a Ragamcener (£)	Amrywiad (%)
Prifffyrdd a Thrafnidiaeth											
Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysydd Parcio	20,068	17,550	0	17,550	17,550	(0)	100	87	17,550	(2,518)	(13)
Cerbydau	354,194	71,000	70,952	0	70,952	(48)	100	20	87,314	(266,880)	(75)
Ailwynebu Prifffyrdd	1,593,307	1,330,831	941,428	0	941,428	(389,403)	71	59	1,593,307	0	0
Grant Adnewyddu Prifffyrdd	596,381	410,910	342,676	0	342,676	(68,234)	83	57	596,381	0	0
Gwaith Liniaru Llifogydd ym Mwmmares (LIC)	479,669	20,000	4,399	5,156	9,554	(10,446)	48	2	9,554	(470,115)	(98)
Gwaith Liniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LIC)	28,049	1,000	555	0	555	(445)	56	2	555	(27,494)	(98)
Liniaru Llifogydd yn Llansadwrn	32,291	10,000	0	0	0	(10,000)	0	0	0	(32,291)	(100)
Astudiaethau Traenio Amlwch a Chaergybi	52,144	20,000	0	0	0	(20,000)	0	0	15,000	(37,144)	(71)
Cynllun Llifogydd Traeth Coch	74,153	25,000	4,883	0	4,883	(20,117)	20	7	20,000	(54,153)	(73)
Cynllun Llifogydd Llanfairpwll	399,647	20,000	1,954	0	1,954	(18,046)	10	0	3,000	(396,647)	(99)
Achos Busnes Llawn Cynllun Llifogydd Menai	156,177	35,000	27,019	0	27,019	(7,981)	77	17	47,019	(109,158)	(70)
Achos Busnes Llawn Cynllun Llifogydd Y Fali	113,316	43,000	64,631	3,789	68,420	25,420	159	60	68,420	(44,896)	(40)
Cynllun Llifogydd Y Fali - adeiladu	538,000	0	0	0	0	(0)	0	0	75,000	(463,000)	(86)
Cynlluniau Liniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol)	54,300	0	0	0	0	(0)	0	0	0	(54,300)	(100)
Traeth Coch (Cyllid Cyfatebol)	225,000	0	0	0	0	(0)	0	0	0	(225,000)	(100)
Strwythur Mill Lane	89,097	75,000	55,438	0	55,438	(19,562)	74	62	65,438	(23,659)	(27)
Dwyran - Rheoli Llifogydd yn Naturiol - Cwrs Dŵr Cyffredinol	318,553	350,000	368,939	0	368,939	18,939	105	116	400,000	81,447	26
Mill Lane - Rheoli Llifogydd yn Naturiol	243,960	9,000	2,279	0	2,279	(6,721)	25	1	4,279	(239,681)	(98)
Buddsoddi i Arbed - Cerbydau	31,987	25,000	25,069	1,850	26,919	1,919	108	84	26,919	(5,068)	(16)
Gwaith Grant Graddfa Fechan	574,745	182,000	183,081	0	183,081	1,081	101	32	424,745	(150,000)	(26)
Teithio Llesol	1,020,000	320,000	99,150	210,556	309,706	(10,294)	97	30	950,000	(70,000)	(7)
A545 Bwmmares	786	0	0	0	0	(0)	0	0	786	0	0
Cyfalaf Diogelu'r Ffyrdd	300,000	250,000	225,368	0	225,368	(24,632)	90	75	300,000	0	0
Cronfa Ffyrdd Gwydn	220,000	40,000	8,466	0	8,466	(31,534)	21	4	220,000	0	0
Cronfa Trafnidiaeth Leol - Gwelliannau Isadeiledd	750,000	0	0	0	0	(0)	100	0	600,000	(150,000)	(20)
Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan	164,000	100,000	31,263	33,367	64,630	(35,370)	65	39	184,000	20,000	12
Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan	300,000	15,000	0	12,237	12,237	(2,763)	82	4	25,000	(275,000)	(92)
CYFANSWM	8,729,824	3,370,291	2,457,550	284,504	2,742,054	(628,238)	81	31	5,734,267	(2,995,557)	(34)
Rheoli Gwastraff											
Contract Gwastraff	2,198,779	2,198,327	2,198,327	0	2,198,327	0	100	100	2,198,779	0	0
Cyllid Economi Cylchol (266)	64,093	64,093	64,093	0	64,093	0	100	100	64,093	0	0
Cyllid Economi Cylchol (265)	13,175	7,339	7,339	0	7,339	0	100	56	10,175	(3,000)	(23)
CYFANSWM	2,276,047	2,269,759	2,269,759	0	2,269,759	0	100	100	2,273,047	(3,000)	(0)
Eiddo											
Adnewyddu Asedau Cyfredol	854,953	350,000	340,184	0	340,184	(9,816)	97	40	609,000	(245,953)	(29)
Eiddo - Buddsoddi i Arbed	207,662	130,000	130,594	0	130,594	594	100	63	207,662	0	0
Grant Gwresogi Carbon Isel - Swyddfeidd y Cyngor	1,033,061	0	0	0	0	(0)	100	0	826,449	(206,612)	(20)
Grant Gwresogi Carbon Isel - Ysgol Gynradd Moelfre	91,250	0	0	0	0	(0)	100	0	73,000	(18,250)	(20)
Adnewyddu Mân-ddaliadau	212,277	120,000	117,348	0	117,348	(2,652)	98	55	205,000	(7,277)	(3)
CYFANSWM	2,399,203	600,000	588,126	0	588,126	(11,874)	98	25	1,921,111	(478,092)	(20)
Trawsnewid											
TGCh - Isadeiledd Craidd	418,466	75,000	5,430	0	5,430	(69,570)	7	1	50,000	(368,466)	(88)
TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron	122,193	122,193	3,000	0	3,000	(119,193)	2	2	122,193	0	0
TGCh - Trosglwyddo Cysylltu Môn i PSBA	23,244	2,000	0	1,339	1,339	(661)	67	6	7,000	(16,244)	(70)
TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod	19,964	19,964	15,543	0	15,543	(4,421)	78	78	19,964	0	0
Ystafelloedd Cyfarfod Hybrid	210,000	192,000	192,430	0	192,430	430	100	92	210,000	0	0
Isadeiledd Hwb TGCh	30,000	50,000	1,528	47,934	49,462	(538)	99	165	50,000	20,000	67
CYFANSWM	823,867	461,157	217,930	49,273	267,202	(193,955)	58	32	459,157	(364,710)	(44)

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Cyllideb a Broffiliwyd (£)	Gwariant Gwirioneddol (£)	Gwariant a Ymrwymwyd (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Amrywiad i'r Proffil (£)	Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%)	Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragamcener (£)	(Tan)/ Gorwariant a Ragamcener (£)	Amrywiad (%)
Cynllunio											
Prosiect Hwb Neuadd y Farchnad, Caerdybi	262,404	131,000	97,752	27,238	124,990	(6,010)	95	48	144,990	(117,414)	(45)
Adfywio Caerdybi (Menter Treftadaeth Treflun Cam II)	700,000	330,000	194,850	18,767	213,617	(116,383)	65	31	303,617	(396,383)	(57)
CYFANSWM	962,404	461,000	292,602	46,004	338,606	(122,394)	73	35	448,606	(513,798)	(53)
Gwasanaethau Oedolion											
Y Gronfa Gofal Integredig	994,246	500,000	442,196	0	442,196	(57,804)	88	44	994,246	0	0
Hwb Cymunedol Bryn Hwfa	13,155	0	0	0	0	(0)	0	0	13,155	0	0
Adnewyddu Plas Crigyll	37,978	4,000	3,081	0	3,081	(919)	0	8	3,081	(34,897)	(92)
Adnewyddu Plas Mona	83,371	0	0	0	0	(0)	0	0	0	(83,371)	(100)
CYFANSWM	1,128,750	504,000	445,277	0	445,277	(58,724)	88	39	1,010,482	(118,268)	(10)
CYFANSWM	59,947,762	26,546,585	19,309,269	991,370	20,300,639	(6,245,946)	76	34	33,778,551	(26,169,211)	(44)